Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Cardiau Adnodd:

## Infertebrat *pwy ydw i?*

Argraffwch ac yna lamineiddio a'u torri yn gardiau unigol.



### Pry Cop

#### Cliw

Dwi'n dda am wau, dwi'n defnyddio fy ngwaith i ddal fy mwyd.

Dwi'n gallu byw yn dy dŷ di neu tu allan – does dim gwahaniaeth gen i.

#### Gwybodaeth

Am eu bod nhw'n fach, mae gan gorynod lawer o elynion. Yn y wlad hon mae creaduriaid fel adar a brogaod yn eu hela.

Ac wrth gwrs, mae pobl fel ni hefyd yn elynion i gorynod am fod rhai ohonom weithiau'n camu arnyn nhw am nad ydyn ni'n eu hoffi nhw.



### Glöyn byw

#### Cliw

Ar ddyddiau hir o haf gallwch fy ngweld i'n curo fy adenydd.

Gan ddefnyddio fy nhafod hir, dwi'n bwydo ar neithdar!

#### Gwybodaeth

Mae 56 rhywogaeth o iâr fach yr haf i'w cael yng ngwledydd Prydain.

Maen nhw'n beillwyr pwysig.

Mae ieir bach yr haf yn blasu â'u traed ac yn byw ar ddeiet o ddim ond hylif.



### Chwilen

#### Cliw

Mae gen i arfogaeth gref ar fy nghefn.

Dwi'n dod mewn pob math o liwiau ond yn aml dwi'n ddu, a dwi'n hoffi byw mewn pentwr o goed sy'n pydru.

#### Gwybodaeth

Er bod ganddyn nhw ddau bâr o adenydd, dim ond y pâr ôl maen nhw'n eu defnyddio i hedfan.



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# Cardiau Adnodd:

## Infertebrat *pwy ydw i?*

Argraffwch ac yna lamineiddio a'u torri yn gardiau unigol.



### Morgrugyn

**Cliw**

Rydyn ni'n byw yn ein cannoedd a'n miloedd gyda'n gilydd, ac rydyn ni'n gweithio'n galed ac yn adeiladu dinasoedd mawr o dan y pridd.

**Gwybodaeth**

Mae coesau morgrug yn gryf iawn a gallant redeg yn gyflym dros ben.

Pe bai dyn, o ran maint, yn gallu rhedeg mor gyflym ag y gall morgrugyn, byddai'n gallu rhedeg mor gyflym â cheffyl rasio.



### Mwydyn

**Cliw**

Ffrind y garddwr ydw i, a dydw i ddim yn ffyslyd beth dwi'n ei fwyta.

Dwi'n byw yn y pridd ac yn helpu pethau i bydru ac ail-gylchu yn ôl i bridd.

**Gwybodaeth**

Ar gyfartaledd mae mwydyn yn byw am 3-4 blynedd, ond mae rhai wedi cael eu darganfod sydd mor hen â 15 oed!



### Buwch goch gota

**Cliw**

Mae fy lliw llachar yn rhybuddio anifeiliaid eraill ac adar i adael llonydd i fi. Dwi'n gaeafgysgu ac yn dihuno yn y gwanwyn pan fydd y tywydd yn dechrau cynhesu.

Dwi'n ffrind i'r garddwr.

**Gwybodaeth**

Math o chwilen yw'r fuwch goch gota.



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government